

ER CÔF ANWYL A HIRAETHUS

am fy hen gyfeillion

John Daniel Jones a Mrs Jones,

Hawen Hall,

RHYDLEWIS.

CEREDIGION.



BANGOR:

Argraffwyd gan Samuel Hughes, Pendref Printing Works, High Street.

Fel 'roedd y ddau o ddydd i ddydd
 Yn myn'd yn wanach, wanach,
 Yn eu Gwareddwr 'roedd eu ffydd
 Yn myn'd yn gryfach, gryfach;
 Yn hwyr y dydd o'r ochr hyn
 Hedasant at eu Ceidwad,
 Maent heddyw'n mysg y teulu gwyn
 Sy'n nofio yn Ei gariad!

J. D. J.

Yr angel gwyn gofnoda'r coll,
 Tra'n rhestru eu diffygion,
 A gollodd dagrau arnynt oll
 Nes daeth y dail yn wynion!

J. N. C.

1. Ha! Hawen Hall! mae'th enw cu
 Yn codi llu adgofion,
 Yn dwyn i'r côf yr amser fu
 Pan oedd y blwyddi'n wynion;
 'Rwy'n cofio'n dda 'r tro cynta' 'rïoed
 Y cefais dy groesawiad,
 Pryd hyny'n llencyn ugain oed,
 Diniwed a dibrofiad.

2. Mi gofiais lawer gwaith cyn hyn
 Y croesaw gan dy feistres,
 Y byd yn oer, gan eira'n wyn,
 A'th aelwyd di mor gynes;
 Mor siriol oedd dy aelwyd lon
 I mi oedd bron a rhewi!
 Am garedigrwydd gës ar hon
 Ni wnaf, nis gallaf dewi!

3. Yr hen *room* bach a welaf 'nawr
 Lle bu'm pryd hyny'n gwledda;
 Y moethau lu, y croesaw mawr,
 Mi gofias fyth tra fydda!
 A phawb yn ceisio yn eu tro
 Gael golwg ar y llencyn
 Oedd am gartrefu yn y fro
 I ddysgu plant y dyffryn.

4. 'Rwy'n cofio'n dda 'r ysgoldy gwiw
 A'r plant yn tyru yno;
 Mi ro'wn, pe meddwn, aur Peru
 Er mwyn eu gweled eto
 Yn dôt ar hyd y ffyrdd mor gul
 Sy'n dirwyn rhwng y llwyni,—
 Y wlad mor ddystaw a Dydd Sul
 A'r gwŷn-deg eira arni!

5. Mor dda 'rwy'n cofio'r Calan gu,
 John Daniel yn ei elfen,
 Pan fyddai'r plant yn cod.'n hy'
 Eu lleisiau am elusen;
 Yn wâg ni chawsai neb fyn'd 'nôl,—
 Medd ef, "Mae'n fuddiol cofio
 Daw hâf a thoraeth yn ei gôl
 A llawnder i'n hadfywio!"

6. Ger Hawen Hall mae enwog "stôl"
 Lle mynych bu ymgomio;
 Gwyn fyd pe cawn i fyn'd yn ôl
 I dreulio'r amser eto!
 Yn nghwmni'r cyfaill anwyl, mwyn,
 John Daniel a'i ffraethineb
 Mi deimlais lawer gwaith y swyn
 O gydnaws hoff gymundeb.

7. Mor hyfryd gweled ar eu taith
 Dau briod tyner galon
 Sydd wedi teithio blwyddi maith
 Trwy'r anial fel cariadon;
 Sy'n teimlo'u cariad yn cryfhau
 Tra'n nesu i dragwyddoldeb,
 Sy'n teimlo 'u bod yn *un*, nid dau,
 Mor berffaith yw eu hundeb!

8. Rhai felly oedd ein cyfaill cu
 A'i anwyl, dlos gydmares:
 Erioed ar ddaear dau ni fu
 A'u cariad yn fwy cynes;
 Pe byddai rhywbeth ddim yn glir
 A ninnau yn petruso
 Dywedai ef "Nis gwn yn wir—
 Beth ddywed *Ann* am dano?"

9. Ni fu eu taith yn hâf i gyd,
 Nid tywydd têt bob munyd,—
 Haul bob yn ail a gwlaw o hyd
 Ac weithiau storom enbyd!
 Anwyliad fagwyd oll mewn serch
 Tu draw i'r llen giliasant,
 Ac er mor anwyl, mab a merch,
 Y rhiaint a'u collasant.

10. Ond wedi myn'd mae'r blwyddi cân
 Yn ôl nis gallant ddyfod:
 Mae'u cofio 'nawr i lawer un
 Yn codi byd o drallod,
 Nes cofio hefyd am y wawr
 Dŷr eto ar eu henaid
 Pan gânt ar ol y cystudd mawr
 Gyduno a'u hanwyliad.

11. Pan wywodd Maggie, mawr ei swyn,
Er gofal mam dyneraf,
I'el hyn y canai'm cyfaill mwyn
Yn nghanol hiraeth dyfnaf :—
“ Mae cadair wâg o fewn fy nhy,
Mae hyfryd lais yn fûd,
Mae lle yn wâg o dan fy mron
Nas lleinw'r byd i gyd ! ”
12. Mae brychau ar glaer deyrn y dydd
Sy'n taenu ei belydrau
I swyno pawb, y llon a'r prudd,
Mewn byd o gyfyngderau ;
Fe gwyd mor gain bob boreu gwyn,
'Does neb ei frychau'n cofio !
Goreuro wna bob pant a bryn
Sydd yn eu wenau'n nofio.
13. Fy nghyfaill oedd fel heulwen fry
Ar bawb yn siriol wenu—
Nid heb ei frychau ! Pwy a fu ?—
Tra'n ceisio canlyn Iesu ;
Ac os bu iddo golli ei droed
A syrthio unrhyw adeg
Y sawl fu'n byw heb lithro erioed—
Cyfoded hwnw gareg !
14. Hen ffrynd caredig, cynef, cu !
Mor barod oedd ei awen !
Yn noddwyr cry', bu ef a'i dŷ
I achos Duw yn Hawen ;
Teg, gysegredig, swynol fan
Lle ganwyd mŷn fy mynwes !
Trwy Gymru lân 'does le na llan
I mi mwy hoff ei hanes.
15. 'Rwy'n gwel'd yn glir yr hên “ Gôr Mawr ”
Ac yno mae John Daniel
Yn fyw o flaen fy llygaid 'nawr
Yn eistedd yn ei gornel !
Mae cenad Nef yn traethu'i lèn
Am hyfryd ddydd i wawrio,
J. D. yn ddystaw'n dweyd “ Amen ! ”
A'r dagrau i lawr yn treiglo.
16. Bendigaid fan ! yr hen Gôr Mawr !
'Rwy't tithau'n haeddu'th gofio
Am rymus wŷr, ac ambell gawr,
Fu gynt yn eistedd yno
Yn gwrandu'n astud weision Iôn
Ei sanctaidd Air yn darllen,
Neu nerthol ŵr yn llôn ei dôn
Yn sôn am “ Paul yn Athen ! ”
17. 'Rol gweddi fêr a chanu tlws
Mae pawb i dref yn cychwyn,
Yn nesu'n araf tua'r drws
A minnau yn eu dilyn ;
Ond wrth fyn'd heibio'r gornel glyd,
Eisteddle mor ddymunol,
Dywedai wrthyf, “ Gwyn ein byd !
Ond oedd e'n dda rhagorol ! ”
18. Y sêr yn awr yn orlawn sy',
Gwŷr parchus yn ei llenwi,
Ond gwâg i mi yw'r fan lle bu
Hoff geraint yn addoli ;
Maent hwy yn mysg “ y dyrfa lân
Nas dichon neb ei rhifo,”
Yn canmol grâs mewn peraidd gân—
John Daniel yn cyduno !
19. A chorff ei briod heddyw sydd
Mewn arch o dan dywarchen,—
Ei benaidlar ol gweddwdod prudd
Aeth ato ef i Eden ;
Yn mysg y dyrfa bŵr, ddinam,
'Does yno neb mwy llawen,
Neb uwch eu cân na thâd a mam
Y teulu mwyn o Hawen.
20. Ddaeth pen i'n cyfeillgarwch gynt
Ar ol i'r rhai'n noswyllo ?
Aeth pobpeth heibio fel y gwynt
Sy'n myned man lle myno ?
Nid dyna drefn ein tirion Dâd !
Mae 'nghrêd yn hollol ddiogel
Câf eto wel'd mewn tecach gwlad
Ei briod a John Daniel !

Bethesda, Arfon, *Tachwedd 5ed, 1906.*

JNO. N. CROWTHER.